



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 29
Gorffennaf 2021

Yn bresennol:

Mark Polin	Cadeirydd
Louise Brereton	Ysgrifennydd y Bwrdd
Clare Budden	Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
Nicky Callow	Aelod Annibynnol ~ Prifysgol
Cheryl Carlisle	Aelod Annibynnol
John Cunliffe	Aelod Annibynnol
Morwena Edwards	Aelod Cyswllt - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Gareth Evans	Cadeirydd Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd
Sue Green	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol
Gill Harris	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth / Dirprwy CEO
Sue Hill	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Jackie Hughes	Aelod Annibynnol
Medwyn Hughes	Aelod Annibynnol
Eifion Jones	Aelod Annibynnol
Lyn Meadows	Aelod Annibynnol
Teresa Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus
Lucy Reid	Is-gadeirydd
Chris Stockport	Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned
Adrian Thomas	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd
Linda Tomos	Aelod Annibynnol
Jo Whitehead	Prif Weithredwr

Yn bresennol:

Kate Dunn	Pennaeth Materion Corfforaethol (<i>ar gyfer cofnodion</i>)
Jody Evans	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (<i>ar gyfer cefnogaeth ffrydio byw</i>)
Sioned Jones	Cyfieithydd
Dylan Owen	Gwybodeg (<i>ar gyfer cefnogaeth ffrydio byw</i>)
Llinos Roberts	Rheolwr Busnes Gweithredol (<i>ar gyfer cefnogaeth ffrydio byw</i>)

Eitem ar yr Agenda a Drafodwyd	Gweithredu gan
<p>A21.1 Croeso a Chyflwyniad</p> <p>A21.1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr holl fynychwyr ac arsylwyr i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Bwrdd Iechyd a oedd yn cael ei ffrydio'n fyw. Atgoffodd yr aelodau bod croeso iddynt gyfrannu yn eu hiaith ddewisol oherwydd bod cyfieithu ar y pryd ar gael.</p> <p>A21.1.2 Nododd y cadeirydd fod yr Athro Arpan Guha a Mr Mark Wilkinson wedi ymddiheuro am eu habsenoldeb. Croesawodd yr aelodau canlynol a ymunodd â'r</p>	

Bwrdd mewn misoedd diweddar i'w Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf - Jo Whitehead, Linda Tomos a Clare Budden.

A21.2 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020/21

Nododd y Prif Weithredwr fod yr Adroddiad Blynyddol wedi'i rannu gyda'r papurau a'i fod ar gael ar y wefan allanol. Nododd y byddai'r cyflwyniad yn cael sylw fel rhan o'r setiau sleidiau dilynol.

A21.2.1 Adroddiad Blynyddol

A21.2.1.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr fideo byr a ddatblygwyd i dynnu sylw at heriau a llwyddiannau 2020-21. Yna cyflwynodd gyflwyniad a oedd yn cynnwys:

- Myfyrdodau ar flwyddyn hynod o heriol;
- Cyflawniadau Allweddol
- Ymateb y sefydliad i Covid-19
- Edrych i'r dyfodol o ran cleifion, partneriaid, staff a systemau.

A21.2.1.2 Roedd y Cadeirydd yn dymuno cydnabod y gwaith yr oedd y Prif Weithredwr wedi tynnu sylw ato, yn enwedig yr ymrwymiad a'r ymroddiad a ddangoswyd gan staff yn ystod y pandemig. Cymeradwyodd y rhaglen frechu a gyflwynwyd yn llwyddiannus o ganlyniad i waith partneriaeth rhagorol ac roedd yn edrych ymlaen at adeiladu ar y perthnasoedd gwell hynny.

A21.2.2 Cyfrifon Ariannol Blynyddol

A21.2.2.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid gyflwyniad a oedd yn cynnwys:

- Perfformiad yn erbyn y targedau ariannol statudol i fantoli'r gyllideb ac i baratoi Cynllun Tymor Canolig Integredig;
- Perfformiad yn erbyn targedau ariannol eraill yn ymwneud â thalu anfonebau nad ydynt yn rhai'r GIG a chau balans arian parod;
- Gwariant Refeniw;
- Gwariant o ran uwch adran a chategori;
- Defnydd o staff asiantaeth;
- Buddsoddiadau Cyfalaf;
- Cyllideb Covid-19 gan gynnwys gwariant ar ysbytai maes;
- Cymorth strategol Llywodraeth Cymru;
- Cadarnhad gan Archwiliad Cymru na nodwyd unrhyw gamddatganiadau perthnasol nac anghysondebau cofnodi;
- Bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol a barn gymwysedig ar reoleidd-dra.

A21.2.2.2 Cyfeiriodd y Cadeirydd at y mater swyddi gwag staff a nododd, ar ymweliad diweddar â'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Wrecsam Maelor bod yr uwch

staff wedi canmol y cynnydd o ran recriwtio nyrsys. Croesawodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu ac OD yr adborth cadarnhaol hwn a ailadroddodd hefyd bwysigrwydd cadw staff yn ogystal â recriwtio. Gwnaeth sylwadau ar wariant yr asiantaeth a bod heriau'r pandemig wedi ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad allu recriwtio'n gyflym ac mewn ffordd ystwyth a oedd wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn cydweithwyr cofrestredig ac anghofrestredig.

A21.3 Edrych Ymlaen

A21.3.1 Rhoddodd y Prif Weithredwr gyflwyniad a oedd yn cynnwys:

- Dychweliad i 'fusnes fel arfer' wedi'i siapio gan addysg o'r 18 mis diwethaf;
- Pwyslais cryfach yn y sefydliad ar drawsnewid, defnydd priodol o opsiynau digidol a gwell ymgysylltiad â dinasyddion;
- Blaenoriaethau allweddol gofal wedi'i gynllunio, adferiad, canolfannau triniaeth ddiagnostig, iechyd meddwl gan gynnwys gwasanaethau plant, gofal heb ei drefnu brys, opsiynau gofal iechyd digidol, llawfeddygaeth â chymorth roboteg, gofal strôc, llwybrau gofal, adnewyddu'r Strategaeth Byw'n Iachach Aros yn Iach a Gwelliant wedi'i Dargedu.

A21.3.2 Roedd yr Is-gadeirydd yn dymuno cofnodi ei diolch i'r holl ddarparwyr gofal cychwynnol am eu hyblygrwydd yn ystod y pandemig a chydabod bod ymgynghoriadau wyneb yn wyneb wedi parhau i gael eu darparu lle bo angen. Croesawodd y maes gwaith o amgylch llwybrau gofal cleifion ac awgrymodd y gallai'r maes hwn gael effaith sylweddol ar ddiogelwch cleifion a phrofiad cleifion. Nododd fod ffyrdd newydd o ddarparu gofal wedi cael eu harchwilio a'u gweithredu o ganlyniad i'r pandemig ac y gallai rhai o'r rhain barhau'n briodol ond y byddai prosesau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol yn hanfodol i reoli disgwyliadau'r cyhoedd a chleifion. Adleisiodd y Prif Weithredwr ei diolch i gydweithwyr gofal cychwynnol a theimlai fod cyfleoedd i adolygu dull llwybr system gyfan tuag at hunanofal ac atal er mwyn osgoi ymyriadau gofal eilaidd diangen, ac i ymgorffori heriau arloesol a ddefnyddiwyd yn ystod pandemig.

A21.3.3 Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad fod rhagolwg mwy cadarnhaol ar hyn o bryd o ran cadarnhau cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru, y gwaith o amgylch llwybrau a'r defnydd o dechnoleg ddigidol. Teimlodd fod y Bwrdd mewn safle gwell i gyflawni ei nodau trawsnewid.

A21.3.4 Nododd y Cadeirydd fod y Bwrdd wedi ymrwymo i adnewyddu ei Strategaeth Byw'n Iachach Aros yn Iach, er mwyn sicrhau ei fod yn eglur ynghylch ei uchelgais a'i flaenoriaethau ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hir. Yn ogystal, penderfynwyd ar y broses gynllunio ar gyfer y Cynllun Blynyddol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) a disgwyliad y byddai'r Bwrdd yn gweld fersiwn gyntaf yr IMTP ym mis Rhagfyr 2021. Cydnabu hefyd fod y Bwrdd wedi derbyn cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn am y tair blynedd nesaf ynghyd â chymorth ariannol penodol yn ymwneud â Covid a'i bod yn bwysig sicrhau bod yr adnoddau hyn yn cael eu cyfeirio tuag at nid yn unig y

<p>pwysau uniongyrchol ond hefyd er mwyn galluogi trawsnewid a darparu gwelliant yn y gwasanaethau. Cyfeiriodd at ddiweddariad yr oedd Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned wedi'i ddarparu ynghylch symud ymlaen gyda'r agenda drawsnewid a gofynnodd am i hyn gael ei rannu ag aelodau'r Bwrdd. Yn olaf, nododd y Cadeirydd fod gwaith yn parhau yn erbyn y Fframwaith Gwella Ymyrraeth wedi'i Dargedu gyda chyfarfod tri rhan cadarnhaol yn ddiweddar yn dangos arwyddion o fwy o hyder gyda'r sefydliad.</p>	CS
<p>A21.4 Sesiwn Cwestiwn ac Ateb</p> <p>A21.4.1 Dywedodd y Cadeirydd fod cwestiynau ymlaen llaw wedi cael eu gwahodd gan aelodau'r cyhoedd ac y byddai'r ymateb yn ysgrifenedig yn dilyn trafodaeth yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Nododd y byddai ymateb i unrhyw gwestiynau a oedd yn ymwneud â chlaf unigol neu aelod o staff yn cael ei ddarparu'r tu allan i'r cyfarfod.</p> <p>A21.4.2 Cyflwynwyd y cwestiwn cyntaf gan Mr Derek Browne o'r Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) a darllenodd "Sut mae'r Bwrdd lechyd wedi cydymffurfio â deddfwriaeth Deddf Staffio Nyrsio (Cymru) 2016 trwy gydol y pandemig a pha baratodau sydd ar waith ar gyfer yr estyniad o adran 25b o'r ddeddf i baediatreg? " Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth fod adolygiadau staffio yn parhau i gael eu cynnal yn unol â'r Ddeddf fel y cyfeirir ati ym Mholisi Staff Nyrsio'r Bwrdd lechyd, gan nodi gohirio archwiliadau craffter fel penderfyniad Cymru gyfan. Yn ystod y pandemig, roedd yr adolygiadau'n ddeinamig oherwydd natur ail-bwrpasu'r wardiau i fodloni anghenion y pandemig. Cynhaliwyd Cyfarfodydd Lleoli Staff Nyrsio Bwrdd lechyd yn ddyddiol fel ymateb rheoli digwyddiadau i gefnogi gofynion uwchgyfeirio staff. Gwnaed recriwtio sylweddol (parhaol a dros dro) fel rhan o ymateb y sefydliad i baratoad ar gyfer y pandemig Covid-19 a hefyd y rhaglen frechu Covid-19. Wrth baratoi, roedd y Bwrdd lechyd hefyd wedi darparu ystod o gyfleoedd uwchsgilio i dimau nyrsio, staff anghlinigol, gweithwyr proffesiynol cysylltiedig i iechyd a gwirfoddolwyr cyhoeddus a hwylusodd ymateb y Bwrdd lechyd ymhellach i don gyntaf pandemig digynsail COVID 19 sydd wedyn wedi parhau trwy gydol y pandemig gyda chefnogaeth gan gydweithwyr yn y Brifysgol. Datblygwyd cynlluniau ymchwydd mewn ymateb i'r modelu data pandemig Covid-19 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, cafodd y rhain eu monitro ochr yn ochr â data gwirioneddol a'u haddasu'n unol â hynny gan adlewyrchu safle staffio'r Bwrdd lechyd. Roedd y Gwasanaeth Paediatreg yn datblygu gwaith i fodloni gofynion deddfwriaethol y Ddeddf a oedd am ddod i rym yn Hydref 2021 gyda gweithredoedd yn cael eu holrhain yn agos i sicrhau parodrwydd ac y cyrhaeddir y cerrig milltir cenedlaethol. Mae staff wedi bod yn ymglyfarwyddo gyda'r fethodoleg am fod Lefelau Gofal Paediatreg Cymru wedi eu hymgorffori'n dda yn barod. Casglwyd data craffter a staff yn ddyddiol gydag ymarferion dilysu ar y gweill i sicrhau cysondeb defnydd ar draws y tair uned cleifion mewnol. Gorffennodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth trwy ychwanegu ei diolch personol i staff a gafodd eu hadleoli y tu allan i'w maes gwaith arferol, am eu hyblygrwydd a'u hymrwymiad.</p>	Gweithredwyr

A21.4.3 Cafodd y cwestiwn nesaf ei gyflwyno gan Mr Derek Browne o'r RCN a darllenwyd "*Beth yw'r gydymffurfiaeth â'r PADR a hyfforddiant gorfodol? Rwy'n ymwybodol bod cydymffurfiaeth trin â llaw wedi ei ddynodi fel risg, byddai'n rhoi sicrwydd gwybod beth yw'r weithred sydd ar waith i fynd i'r afael â hyn ar hyn o bryd.*" Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu'r Sefydliad bod y gyfradd arfarnu sefydliadol yn sefyll ar 71% ar hyn o bryd a oedd yn safle gwell er mae'n derbyn nad dyma lle mae'n dymuno i'r sefydliad fod. Nododd mai rhan o'r dull Mewn Undod mae Nerth fyddai nodi ffyrdd amgen y gallai unigolion gael eu grymuso i gael sgysiau ystyrlon ynghylch perfformiad ac amcanion. O ran cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol roedd y pandemig wedi effeithio ar hyn hefyd ond gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod staff yn dal i allu cael mynediad at hyfforddiant a chymryd rhan. Roedd yr hyfforddiant trin â llaw yn un elfen a oedd yn ddelfrydol yn gofyn am ddarparu sesiynau wyneb yn wyneb ar gyfer staff clinigol ac roedd wedi cael ei effeithio'n sylweddol o ran argaeledd staff i ddarparu'r hyfforddiant a'r gallu i ddarparu'r hyfforddiant mewn modd diogel o ran Covid. Roedd hi'n dymuno cofnodi ei diolchgarwch i bartneriaid undeb llafur am eu cefnogaeth i ddatblygu rhaglen ar gyfer hyfforddiant trin â llaw a gafodd gefnogaeth dda a nododd fod cynnig pellach yn cael ei ddatblygu. Sicrhaodd mesurau dros dro fod asesiadau risg yn cael eu cynnal ar sail unigolyn a gwasanaeth.

A21.4.4 Roedd y cwestiwn nesaf hefyd wedi'i gyflwyno gan Mr Derek Browne o'r RCN a darlennodd "*Beth fu trosiant y staff yn ystod y pandemig a pha strategaethau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu rhoi ar waith ar gyfer recriwtio a chadw staff?*" Ymatebodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu'r Sefydliad fod trosiant wedi gostwng yn PBC, yn unol â gweddill Cymru a rhannau eraill o'r DU, yn ystod pandemig 2020 ond bellach wedi cynyddu eto. Cydnabuwyd bod angen i'r sefydliad wneud pethau'n wahanol o amgylch llwybrau recriwtio. Cydnabu bwysigrwydd cadw staff yn ogystal â recriwtio, er mwyn sicrhau bod sgiliau a phrofiad gwerthfawr yn cael eu cadw yn y sefydliad. Yn ogystal, mae'r broses ymadael wedi ei gwella.

A21.4.5 Cyflwynwyd y cwestiwn nesaf gan Mr Derek Browne o'r RCN hefyd a darlennwyd "*Beth yw'r tri phrif flaenoriaeth o fewn y cynllun adfer?*" Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio mai'r rhain oedd:

- Ail-ddechrau'r holl wasanaethau gofal wedi eu cynllunio ar ôl y pandemig. Mae hyn bellach wedi'i gwblhau (o ganol mis Gorffennaf) ac roedd y Bwrdd yn adeiladu tuag at y lefelau capasiti blaenorol er gwaethaf y ffaith bod pellter cymdeithasol wedi lleihau rhywfaint o gapasiti.
- Wrth drin gweithgaredd eleni byddai'r sefydliad hefyd yn trin y garfan o gleifion na chawsant eu trin naill ai cyn y pandemig neu yn ystod y pandemig. Mae'r rhain wedi eu rhannu i arbenigeddau a chyfrifwyd pa mor hir y byddai'n ei gymryd. Byddai'r capasiti sydd ei angen yn cael ei ddarparu trwy sesiynau clinigol ychwanegol, rhoi gwaith ar gontract allanol gyda'r sector annibynnol a mewnnoli.
- Trawsnewid gwasanaethau i wella canlyniadau cleifion a gostwng amseroedd aros. Byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy gynllun adfer chwe phwynt ond byddai hefyd yn cynnwys llwybrau newydd, yn syth i'w profi ar gyfer cleifion sy'n aros yn

hirach am eu triniaeth, moderneiddio gwasanaethau cleifion allanol a dilyn dull canolfan ddiagnostig a thriniaeth.

A21.4.6 Cyflwynwyd y cwestiwn olaf gan Mr Phil Jones, ar ran Grŵp Gweithredol Cleifion Llawfeddygaeth Hanmer a darllenodd “ *A yw'r Bwrdd Iechyd yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod amddiffyn ei adeilad gofal cychwynnol yn y dyfodol yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd? Ar hyn o bryd, mae meddygon teulu sy'n gweithio yn eich adeiladau, a ddyluniwyd ac a adeiladwyd mor ddiweddar â 2017, yn nodi nad oes ganddynt le i roi staff iechyd cymunedol. Bydd y sefyllfa hon yn cael ei gwneud yn fwy difrifol gan y duedd bresennol mewn mudo o ardaloedd trefol i ardaloedd gwledig ynghyd â'r gallu cynyddol i weithio gartref. Sut fydd y Bwrdd yn sicrhau bod hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol yn cael ei gynnwys ym mhob adeilad gofal cychwynnol newydd?*” Sicrhodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned y rhai a oedd yn bresennol fod y Bwrdd yn cydnabod yn llawn pwysigrwydd sicrhau y gallai adeiladau gofal cychwynnol gefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau gofal cychwynnol. Dywedodd mai darparu mwy o ofal yn nes at y cartref oedd y bwriad ond ni allai hyn ddigwydd oni bai bod yr ystâd gofal cychwynnol a chymuned yn addas at y diben ac i gyflawni hyn, roedd angen trawsnewid. Yn ddiweddar, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r holl gyfleusterau meddygfeydd yng Nghymru. Disgwylir canlyniad yr adolygiad hwn a fydd wedyn yn llywio strategaeth ystadau well sy'n canolbwyntio ar y claf i hwyluso gofal amserol mewn amgylchedd modern ac addas at y diben. Ar hyn o bryd mae dau adeilad gofal cychwynnol newydd ar y gweill yn Rhuthun a Waunfawr ynghyd ag ystod o welliannau i adeiladau presennol. Pwysleisiodd y pandemig bod nifer o adeiladau heb eu dylunio i ymdopi gyda sefyllfaoedd mor heriol. Byddai hyblygrwydd yn allweddol a byddai'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n agos gyda Cyd-wasanaethau GIG Cymru i sicrhau hyn wrth weithio o fewn rheolau arfer gorau ac ariannu. Fel rhan o hyn, mae cyfleoedd yn cael eu cymryd i wella gwasanaethau yn Hanmer i sicrhau mwy o wasanaethau cynaliadwy. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd cyfyngiadau yn nhermau natur yr adeiladau a'r contract, o ran natur y buddsoddiad y gellid ei gynnig a chadarnhawyd bod rheolau o ran sut y dylai'r ystâd gofal cychwynnol edrych ac mae'r Bwrdd wedi adeiladu gan ymgorffori'r rhain bob tro. Fodd bynnag, roedd sgwrs barhaus ynghylch a oedd y rheolau hynny'n parhau i fod yn addas at y diben.

A21.5 Sylwadau Terfynol

A21.5.1 Diolchodd y cadeirydd i'r Tîm Gweithredol am eu gwaith ac am ddarparu cyflwyniadau i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Roedd hefyd am gofnodi mai hwn oedd cyfarfod llawn olaf Mr Eifion Jones cyn iddo adael i ymgymryd â rôl arall. Nododd y Cadeirydd fod Mr Jones wedi ymuno â'r Bwrdd ym mis Awst 2019 a'i fod wedi darparu mewnbwn gwerthfawr i drafodaethau'r Bwrdd a'r Pwyllgor yn enwedig y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Dymunodd ddiolch iddo am ei gefnogaeth yn bersonol ac iddo fel Cadeirydd.

A21.5.2 Yn olaf, nododd y Cadeirydd fod y Bwrdd ar hyn o bryd yn recriwtio tair swydd Aelod Annibynnol ac y byddai'n falch o dderbyn unrhyw ddiddordeb gan aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno cynrychioli eu cymunedau.